

Y TYST

Sefydlwyd 1867

Cyfrol 154

Rhif 48

Rhagfyr 2, 2021

50c.

Y Priordy'n Arloesi Ar-lein

Bu penwythnos cyntaf mis Hydref yn amser cyffrous yn hanes eglwys y Priordy Caerfyrddin pan lansiwyd ei phrosiect newydd sbon 'Arloesi ar Lein'.

Bu'r Priordy'n llwyddiannus yn ei chais am nawdd am gyfnod o bum mlynedd o Raglen Arloesi a Buddsoddi Undeb yr Annibynwyr Cymraeg i'w galluogi i ymestyn ei thystiolaeth a'i chenhadaeth ymhellach drwy wneud defnydd arloesol a chynyddol o dechnoleg a chyfryngau digidol newydd.

Byddwn fel eglwys yn parhau i gwrdd ac addoli wyneb yn wyneb, wrth reswm, ond mae profiadau diweddar wedi'n hargyhoeddi fod angen i ni ymdrechu i ddal ati i gynnal ein darpariaeth ddigidol ar yr un pryd.




Ymateb syfrdanol

Bu'r ymateb i'n darpariaeth ar-lein yn ystod y pandemig yn syfrdanol, gyda channoedd lawer yn gwylio'r oedfaon ar-lein, a'n nod yw adeiladu ar hyn i'r dyfodol. Teimlwn fod gan y dechnoleg newydd ran bwysig i'w chwarae i'n galluogi i estyn allan yn barhaus a denu Cristnogion newydd o bob oed yn ogystal â chynnal ein haelodau presennol.

Bywyd a lliw

Mae rhaglenni anturus yn llawn bywyd a lliw eisoes ar waith gennym ar gyfer oedolion a'r to iau, gydag arbenigwyr technolegol yn ein helpu i'w darparu. Hoffem eich gwahodd yn gynnes iawn i droi at Sianel YouTube Gofalaeth Y Priordy, Cana a Bancyfelin, lle gwelir oedfa ddigidol ar ffurf fideo bob wythnos. Ewch hefyd at ein



eithriadol o gyffrous o fedru datblygu'r wedd bwysig hon o weinidogaeth yr eglwys ac yn hynod o ddiolchgar i Raglen Arloesi a Buddsoddi Undeb yr Annibynwyr Cymraeg am y nawdd hael.'

R. Alun Charles

LLITHRO I'R NOS
– NEU CEISIO
EWYLLYS DUW?

'Anglicanism was never really about God' – dyna bennawd dadleuol Matthew Parris mewn erthygl yn y *Times* yn ddiweddar. Sefydliad cysurus yw'r eglwys leol i lawer, meddai, gan honni nad yw nifer fawr o'r mynychwyr yn wir gredinwyr.

'Dw i ddim yn credu yn Nuw, ond rwy'n caru'r Eglwys,' meddai Parris. 'Rwy'n cyfrannu tuag at achos yr Holl Saint yn Elton, yn canu emynau ac yn ymhyfrydu yn yr Hen Destament a'r Newydd. Rwy'n gweddïo bob nos, nid am fod neb yn gwrando, ond allan o arferiad. Mae eglwysi cadeiriol yn fy llenwi â rhyfeddod, mynwentydd â datguddiad. Ac mae'n mynd yn ddyfnach. Rwy'n caru stori a pherson Iesu; yr wyf yn argyhoeddedig iddo fod yn berson go iawn a rhyfeddol, er o dan gamargraff ddifrifol am ei dadolaeth.'



Ffenestri lliw neu'r Ysbryd Glân?

Dyma beth yw'r Eglwys Anglicanaidd i filiynau, honna Matthew Parris; mae'n ymwneud â brics a cherrig a ffenestri lliw, defod a cherddoriaeth. Mae nifer o'r ffyddloniaid yn anelwig o ran athrawiaeth, meddai, gyda'r un drwgdybiaeth o sêl ysbrydol ag eiddo'r Esgob Joseph Butler a wnaeth geryddu John Wesley bron i dair canrif yn ôl gyda'r geiriau, 'Sir, the pretending to extraordinary revelations and gifts of the Holy Ghost is a horrid thing, a very horrid thing!'

Pladur y dirywiad

Mae mynychwyr Eglwys Loegr wedi syrthio bob blwyddyn ers 70 mlynedd. Erbyn hyn, mae llai na 2% o bobl yn mynychu oedfaon. Dyna fu profiad bron pob enwad Cristnogol arall hefyd. Mae pladur marwolaeth a thwf anffyddiaeth wedi cael effaith ddinistriol. O fewn

parhad ar dudalen 6

Addysg ddiwinyddol ar gyfer 'Economi Bywyd'

[Parhad o erthygl Richard Morgan]

Uned 2

Amcan yr uned yw cynnig y gwerthoedd, yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar y Cristion sy'n chwilio am ffyrdd newid o drefnu'r byd yn economaidd – sef 'economi bywyd'. Mae'r ffyrdd amgen hyn yn seiliedig ar y syniadau canlynol:

- anghenion pobl
- heddwch yn seiliedig ar gyfiawnder
- cyfranogaeth
- cynaliadwyedd



- parch tuag at urddas dynol
- parch tuag at yr amgylchedd
- atebolrwydd i'n gilydd
- gweithio er lles pawb

Yn yr ail uned cyflwynir chwech o fodiwlau. Y mae yma sylfeini beiblaidd a diwinyddol i'r syniad o 'nefoedd newydd a daear newydd', a datblygir y syniad o 'ardd Duw a dinas y ddynoliaeth.' Canolbwynt yr uned yw astudiaeth gritigol o'r dulliau cyfoes o greu cyfoeth sydd yn rhoi'r flaenoriaeth i gyfalaf dros llafur.

Yn hytrach (ym modiwl 4) yr hyn sydd ei angen yw blaenoriaethu llafur a chynnig dulliau mwy cynnaliadwy o fyw. Pwysleisir yr angen am symud i ffwrdd o'r modelau sydd yn arian-ganolog ac sy'n rhoi sylw i dwf economaidd uwchben popeth arall. Yn modiwl 6 cawn eglurhad ar sut y mae damcaniaethau a dulliau economaidd yn dylanwadu ac yn datblygu systemau economaidd a chymdeithasol, megis cyfalafiaeth, sosialiaeth a chomiwnyddiaeth. Dangosir hefyd sut y gwneir defnydd o grefydd, technoleg gwybodaeth a'r cyfryngau torfol i rymuso'r gyfundrefn yr ydym yn rhan ohoni. Mae'r modiwl yn terfynu trwy awgrymu bod datblygu ffurfiau amgen yn cynnig potensial i herio'r pwerau sy'n dominyddu'r byd.

Uned 3

Amcan y drydedd uned yw datblygu'r syniad o *ekklesias* wahanol sydd yn gwireddu'r addewid beiblaidd o 'nefoedd newydd a daear newydd' fel dathliad o'r addewid 'yr wyf fi wedi dod



er mwyn i *bawb* gael bywyd, a'i gael yn ei holl gyflawnder' (Ioan 10:10). Cyflwynir syniadau gobaith megis codi o farwolaeth i fywyd, gwrthdrawiad wrth broffwydo, iachau ac adferiad.

Mae'r uned yn cynnwys pum modiwl o dan y penawadau canlynol:

- mudiadau cymdeithasol byd-eang
- trefnu cymunedol
- adeiladu'r amgen
- proffwydo cymdeithasol
- profiadau cymunedau sy'n hybu egwyddorion 'economi bywyd'

Dyma fannau gobaith mwyaf dylanwadol y cwricwlwm hwn. Cawn adolygiadau o'r cyrff hynny sy'n gweithio tuag at greu pensaernïaeth ariannol newydd ac sy'n rhoi sylw dyladwy i syniadau o degwch, cyfiawnder a pharch ecolegol. Rhoddir sylw arbennig i'r mudiadau wrth-globaleiddio, mudiadau sy'n pwysleisio hawliau tir a mudiadau sy'n hybu masnach fwy cyfiawn. Rhoddir sylw hefyd i sgiliau penodol wrth herio'r gyfundrefn economaidd gyfoes – sef rhwydweithio, eiriolaeth, dylanwadu trwy lobio, creu cyd-ddibyniaeth ac adeiladu cynghreiriau. Yn y modiwl olaf cawn gyflwyniad i'r wleidyddiaeth, y foesoldeb a'r arfer sydd ynghlwm wrth y broses o adeiladu cymunedau sy'n adlewyrchu egwyddorion 'economi bywyd.' Diddorol nodi bod cymunedau o'r fath yn cael sylw priodol yn nogfen strategol CWM ar gyfer y cyfnod 2020–9 (*Life-flourishing communities*).

Dymunwn yn dda i'r tair prifysgol ar draws y byd sydd wedi cytuno i fabwysiadu'r cwricwlwm hwn. Edrychwn ymlaen at dderbyn yr ymateb i'r gwaith arloesol hwn, gan obeithio y gwelir defnydd ehangach o adnodd sydd yn ein harwain i herio y gyfundrefn economaidd ac ariannol yr ydym yn rhan annatod ohoni ac i geisio adeiladu pensaernïaeth newydd lle mae tegwch, cyfiawnder a pharch ecolegol yn cael y sylw pennaf.

CHWILMENTAN

Os bu i'r cyfnod clo a orfodwyd arnom y flwyddyn a mwy aeth heibio yn achos pryder, eto bu hefyd yn gyfle i ymosod ar ambell dasg fu yn yr arfaeth ers misoedd, os nad blynyddoedd. Un o'r cyfryw dasgau ydoedd rhoi trefn ar fy llyfrau a dod i ddeall yn bur sydyn fod gan lyfr ei feddwl ei hunan, yn mynnu llithro o'r gafael a gwrthod derbyn ei wthio i'r man a fynnwyf. Tasg arall fu chwilmentan yn y daflod a chael hyd i bob math o bethau fu'n cronni dros y blynyddoedd, ac ambell drysor megis yr adroddiad hwn o'r *South Wales Evening Post*, dyddiedig dydd Gwener, 30 Mai, 1952, ac er bod yn agos at saith degawd wedi ei freuo a'i felynu, eto yn ddigon darllenadwy. Y pennawd yw *ELFED AND JACOB : GENTLE GIANTS OF THE PULPIT*. Adroddiad ydyw o oedfa fore Iau cyfarfodydd blynyddol Undeb yr Annibynwyr yn Nhreforys y flwyddyn honno. Na, nid oeddwn yn bresennol – nid hawdd yn y dyddiau hynny fyddai ymweliad brys o Fangor i Dreforys. Ond mi garwn fod yno petai ond am fod eglwys fy nghartref, Nebo Felindre, yn rhan o'r fenter, ond yn fwyaf arbennig gael cyfle i wrando'r ddau bregethwr o ddewis y pwyllgor lleol.

Pregethau mewn papur newydd!

Awdur yr erthygl ydoedd golygydd y papur, Mr D. H. I. Powell, un effro i bopeth oedd yn digwydd yn y byd crefyddol a diwylliannol yr ardaloedd hyn. Ac ystyriwch, golygydd papur newydd cyfrwng Saesneg, eang ei gylchrediad, yn dod yn unswydd i wrando dwy bregeth a neilltuo tudalen gyfan i adrodd y profiad. At hynny yn ychwanegu llun o'r ddau bregethwr yng nghwmni neb llai na J. J. Williams, gynt o'r Tabernacl. Y mae'n cofio amser pan oedd H. T. Jacob yn enwog fel 'Jacob Peniel' (Sir Gâr wrth gwrs), cyn dod yn adnabyddus trwy Gymru fel 'Jacob Abergwaun'. Yn yr un modd yr oedd yn hyddysg yng ngyrfa Elfed. Y mae ganddo atgof hyfryd am Elfed, ac yntau yn ddall, yn cael ei dywys i lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol a'r dyrfa yn ei gymeradwyo yn frwd, ac er iddo glywed y gymeradwyaeth, bu'n rhaid i rywun sibwrdd wrtho fod y dyrfa oll yn sefyll. Y 'standing ovation' ys dywedir.

Yr Adran Gydenwadol

Pryder cynyddol am hawliau dynol a diogelwch ym Mhalesteina



EAPPI | Ecumenical Accompaniment Programme in Palestine and Israel

Er newid y llywodraeth yn Israel ym mis Mai eleni, mae'r newyddion o Israel/Palestina yn gwaethygu fesul diwrnod. Mae nifer y plant gaiff eu lladd gan filwyr Israelaidd, nifer y tai a'r pentrefi gaiff eu dymchwel, a niferoedd yr anheddau anghyfreithlon sy'n cael eu hadeiladu ar y Llain Orllewinol yn cynyddu. Ar hyn o bryd, mae 544 o Balestinaid yn cael eu cadw mewn carchar heb unrhyw gyhuddiad yn eu herbyn. Mae'r sefyllfa'n erchyll.

Ddiwedd Hydref eleni cyhoeddodd llywodraeth Israel fod chwe chorff sy'n amddiffyn hawliau dynol Palestinaid yn 'fudiadau terfysgol'. Mae'r rhain yn cynnwys rhai o'r mudiadau hawliau dynol uchaf eu parch ym Mhalestina. Yn eu plith y mae Al-Haq, a enillodd brif wobwr Ffrainc am waith dros hawliau dynol yn 2018; Addameer, sy'n gweithio i roi gwasanaethau cyfreithiol i rai mewn carchar; a Defense for Children International, sy'n gwarchod plant ym Mhalestina. Mae'r ffaith iddynt gael eu henwi fel grwpiau terfysgol yn golygu ei bod yn anodd iddynt gael adnoddau o dramor a bod eu gweithwyr a'u gwaith mewn perygl. A dyma'n union oedd y diben.

Mae 16 grŵp ym Mhrydain, gan gynnwys Cymorth Cristnogol, Amnest ac Oxfam, wedi ysgrifennu i wrthwynebu hyn. Credant mai ymgais i ddileu gwaith dyngarol ydyw a'i bod yn dangos sut mae hawliau dynol yn cael eu tansellio. Maen nhw'n gofyn i lywodraeth Prydain gadarnhau ei gofynion i Israel i warchod hawliau dynol sylfaenol. Hyd yma, gwamal iawn fu ymateb Prydain, gan nodi ei bod am ofyn i'w ffrindiau yn Israel pam y gwnaethon nhw hyn.



Y gwahanfur rhwng Israel a Phalesteina (Crynwyr yn y Deyrnas Unedig)

Er ei bod yn mynnu ei bod yn gefnogol, mae llywodraeth Prydain wedi cwtdogi'r grant i UNRWA (adran o'r Cenhedloedd Unedig sy'n gweithio gyda ffoaduriaid Palestinaidd) i'r hanner. Dywed Pennaeth UNRWA fod gwaith cymunedol, iechyd, addysg ayb mewn trafferthion dybryd. A bydd dynodi'r grwpiau hawliau dynol yn 'derfysgwyr' yn gwaethygu'r sefyllfa.

Y cwestiwn mawr, a'r her, ydy sut y gallwn ni wneud ein rhan?

Dyma enwau a gwefannau chwe grŵp sydd wedi eu dynodi'n fudiadau terfysgol gan lywodraeth Israel fel y gallwch gyfarwyddo â'u gwaith ar ran y Palestinaid:

- [Defense for Children International – Palestine](#)
- [Al-Haq](#)
- [Addameer](#)
- [Bisan Center for Research and Development](#)
- [The Union of Palestinian Women's Committees](#)
- [The Union of Agricultural Work Committees](#)

Mae angen inni sefyll gyda'r sefydliadau hyn i amddiffyn hawliau dynol.

Dyma rai o'r datganiadau a wnaed ar ran y chwe mudiad yn ddiweddar. Gellir pori ynddyn nhw a chodi pwyntiau i'w hanfon at ein Haelodau Seneddol a'n harweinwyr:

- [Joint statement from 16 UK-based humanitarian, human rights, development and faith groups](#)
- [Joint statement from Christian organisations in Palestine](#)
- [Statement from the United Nations](#)
- [Joint statement from dozens of Israeli human rights organisations](#)

Rhyddhawyd y [datganiad](#) hwn gan lywodraeth Gweriniaeth Iwerddon mewn ymateb i ddynodi'r cyrff anlywodraethol hyn yn fudiadau terfysgol. Fe allwch chi ei anfon at eich Aelod Seneddol neu Aelod o Senedd Cymru eich hun a mynnu bod llywodraeth Prydain a Senedd Cymru yn gwneud yr un modd.

Nia Higginbotham

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Sul, 5 Rhagfyr, am 7.30yh (ailddarlledir y Sul canlynol am 11.30yb)
Adfent #2 – Cawn fwynhau detholiad hyfryd o garolau a chaneuon y Nadolig o Eglwys Crist, y Bala

BBC radio cymru

Sul, 5 Rhagfyr – Caniadaeth y Cysegr, 7:30yb a 4:30yp
Modlen Lynch fydd yn trafod emynau a gwaith Ann Griffiths

Sul, 5 Rhagfyr – Oedfa Radio Cymru, 12:00yp
Ar yr ail Sul yn yr Adfent fe gawn gyfle i ymuno â Meurig Llwyd mewn oedfa o Iwerddon wrth barhau â'r gyfres o oedfaon o wledydd Celtaidd

Tywysog Tangnefedd mewn Byd o Ryfeloedd

A ninnau yn nhymor yr Adfent, fe fyddwn yn parhau â'r gyfres o fyfyrddodau o'r gyfrol *The Prince of Peace in a World of Wars* gan David Kerrigan (llyfr Adfent y BRF) yn ganllaw ar gyfer astudiaeth a thrafodaeth mewn grŵp bychan ac ar gyfer myfyrdod personol. Hyd 2017 David Kerrigan oedd Cyfarwyddwr Cyffredinol Cenhadaeth Fyd-eang y BMS (Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr).

5. Deall Heddwch

Shalom a dyfodiad anhrefn

Darllen: Genesis 3:8–13

Ond galwodd yr ARGLWYDD Dduw ar y dyn, a dweud wrtho, "Ble'r wyt ti?" Atebodd yntau, "Clywais dy sŵn yn yr ardd, ac ofnais oherwydd fy mod yn noeth, ac ymguddiais." Dywedodd yntau, "Pwy a ddywedodd wrthynt dy fod yn noeth? A wyt ti wedi bwyta o'r pren y gorchymynais iti beidio â bwyta ohono?" (adn. 9–11)

Mae'r profiad o gael presenoldeb Duw yng nghanol ei greadigaeth berffaith yn cael ei grynhofi ac i'w weld ar ei orau yn y darlun o Eden. Dyma heddwch fel y bwriadodd Duw, y *shalom* y mae'r Beibl yn sôn amdano. Dyma gyflawnder a fynegodd galon Duw ei hun dros yrhai y daeth â nhw i fodolaeth a'u caru. Dymaberffeithrwyddsy'n ein hatgoffa o'r gwahaniaeth rhwng creu'r cosmos, a ystyrir yn dda, a chreu'r ddynoliaeth, a ystyrir yn dda iawn. Yn y penodau cynnar hyn o Genesis rydym yn cael cipolwg mewn sawl ffordd ar rwyddineb a normalrwydd y berthynas rhwng Duw ac Adda ac Efa. Mae Duw yn cyfarwyddo Adda ar yr hyn sydd i'w fwyta yn yr ardd (Genesis 2:16–17), ac felly rydyn ni'n gweld dechreuadau perthynas ryngweithiol rhwng Duw a'r rhai a greodd. Pan fydd y rhyngweithio hwnnw'n agored, heb ei ddifetha gan bechod ac wedi'i nodweddu gan ufudd-dod cariadus, rydym yn sicr yn gweld heddwch, y bydysawd fel y bwriadwyd ef i fod.


Rydyn ni'n ei weld hefyd yn noethni Adda ac Efa gerbron Duw, lle rydyn ni'n darllen, er eu bod nhw'n noeth, nad oedden nhw'n teimlo unrhyw gywilydd (Genesis 2:25). Yn y byd sydd wedi'i 'rywioli' i gymaint graddau heddiw, gall fod yn anodd deall arwyddocâd yr adnod hon, a gellir tynnu ein sylw i ddechrau at eu noethni. Fodd bynnag, dylai'r ffocws fod ar absenoldeb cywilydd, a dyna sut y byddai pobl ar y pryd, oedd yn gweld noethni fel tystiolaeth o amddifadedd neu warth, wedi ei ddeall. Yma mae eu noethni yn sôn am fod yn hollol agored, am ddiffyg rheidrwydd i guddio unrhyw beth oddi wrthynt eu hunain neu oddi wrth Dduw. Mae'n siarad am allu dynoliaeth i adnabod a chael ein hadnabod yn ein cyfanrwydd. Mae'n sôn am natur nad yw'n gweld angen cuddio, lle nad oes unrhyw ymdeimlad o bryder. Yma hefyd rydyn ni'n gweld heddwch.

Ond yn sydyn ac yn erchyll iawn, os ydych chi'n ystyried bod popeth a lifodd dros yr oesoedd a ddeuai wedyn yn dod o anallu'r ddynoliaeth i fyw yn ôl gair Duw, mae popeth yn newid. Efallai eich bod yn cofio clasur Joni Mitchell 'Big Yellow Taxi', lle mae'n ein hatgoffa nad ydym yn gwybod beth sydd gennym nes byddwn wedi ei golli. Yma hefyd, rydym yn cael dealltwriaeth o heddwch hyd yn oed yn yr union weithred honno pan mae'r heddwch hwnnw'n diflannu. Yn Genesis 3:1 rydym yn clustfeinio ar sgwrs lle mae'r sarff yn gofyn i Efa, 'A ddywedodd Duw hynny mewn gwirionedd?' Ac mae'n anodd peidio â synhwyro bod y sgwrs hon yn un afiach. Yn y weithred o anuffuddhau i Dduw, y peth cyntaf sy'n newid yw bod llygaid y ddau ohonyn nhw'n cael eu hagar, ac maen nhw'n sylweddoli eu bod nhw'n noeth (Genesis 3:7). Mae'r *shalom* yn prysur anweddu fel niwl y bore, ac eto rydyn ni'n cael un mewnwelediad mwy poenus fyth i'r hyn sy'n digwydd wrth i ni gael gwybod iddyn nhw glywed 'sŵn yr ARGLWYDD Dduw yn rhodio yn yr ardd gyda hwy'r dydd, ac ymguddiodd y dyn a'i wraig o olwg yr ARGLWYDD Dduw ymysg coed yr ardd' (adn. 8).

Mae'r cymundeb diymdrech hwnnw â Duw a rhyngddyn nhw a'i gilydd wedi ei golli. Disodlir y natur agored hynod brydferth a rannwyd ganddynt gan gywilydd, diffyg datgelu, adeiladu rhwystrau, beio'r llall a cholli ymddiriedaeth. Yma rydyn ni'n cael cipolwg ar heddwch, hyd yn oed wrth i ni ei weld yn diflannu o flaen ein llygaid. Ac wrth i'r heddwch hwnnw ddiflannu, mae'r bwlch yn dechrau agor rhwng y crëwr a'i greadigaeth. Mae gwir Baradwys wedi ei cholli, a chyda hi'r heddwch sydd y tu hwnt i bob deall.

Nawr rydyn ni'n dechrau gweld sut olwg sydd ar fyd o anhrefn. Daw'r ddaear yn lle o lafur caled, yn lle cyndyn i ildio'i ffrwyth. Mae Cain yn lladd Abel, a chenchedlaeth gyfan cyfnod Noa yn cael ei dileu gan y dilyw, Abram a Sara yn methu ymddiried yn addewid Duw, pobl Dduw yn cael eu caethiwo yn yr Aifft, ac yn y pen draw gwelwn 'bob un yn gwneud yr hyn oedd yn iawn yn ei olwg ei hun' (Barnwyr 21:25). Ac felly gallwn barhau hyd y dydd heddiw.

Ddoe, *dywedais fod fy mhrofiad fy hun o fywyd wedi ei drefnu'n weddol dda, diolch yn fawr iawn! Ond awgrymais mai



dyfarniad a wnaed ar fy nghlorian fy hun, nid un Duw, oedd hwn. Oherwydd y gwir yw fod popeth rydyn ni'n ei gyffwrdd yn cael ei ddifetha. Mae'r bwriad gorau, y berthynas orau, y cyflawniad gorau a'n caredigrwydd gorau'n syrthio'n brin o ogoniant Duw. Syrthiant yn brin o filiwn i filltiroedd. Maent yn cwmpo mor fyr fel na allwn hyd yn oed weld sut beth fyddai byw bywyd o *shalom* gyda Duw. Sut y gallem ni? Mae'r cyfan wedi'i golli.

Neu a ydyw? A ninnau bron â chyrraedd y pwynt hwnnw pan ddylai ein galar, o safbwynt dynol, fod yn peri inni ildio i'r tywyllwch, mae llygedyn bach o oleuni i'w weld yn y pellter. Pan feddylw'n yn rhesymol fod popeth wedi ei golli, fe welwn rywbeth yn stori'r Nadolig sy'n cynnig gobaith egwan inni y gellir cyfannu eto yr hyn sydd wedi ei dorri. Yn syml, y dirgelwch y gall Mair, mam Iesu, a grëwyd ar ddelw Duw, fod yn alluog i gario bywyd Iesu. Peidiwch â meddwl am Iesu y plentyn yn y groth neu'r baban newydd-anedig. Meddylwch am Iesu fel yr un trwy'r hwn y mae popeth sy'n bod wedi ei greu; a wnaeth y bydysawd cyfan o ddim; yr hwn a ddisgrifir, wrth fynd heibio bron, mewn llinell o stori'r creu, fel yr un a 'wnaeth y sêr hefyd' (Genesis 1:16). Meddylwch am Iesu, yr hwn oedd yn bod cyn dechrau amser ac a fydd wedi i amser gael ei ddirwyn i ben, a'r hwn y mae awdur y llythyr at yr Hebreaid yn dweud amdano, ei fod yn 'ddisgleirdeb gogoniant Duw, ac y mae stamp ei sylwedd ef arno' (Hebreaid 1:3).

Fe anedlir yr Iesu sy'n gnewyllyn wedi'i ymgynwddoli i groth Mair gan Ysbryd Glân Duw. Distewir y cosmos. Mae eto ffordd i'r heddwch yma gael ei adfer, ond pwy all ddirnad y gost?

*Myfyrdod ar Genesis 1:28–31, 7 Rhagfyr, yn y gyfrol: 'Shalom a threfn dda'

Anrhegion Nadolig rhad i'w cyflwyno i blant er mwyn rhannu stori'r Nadolig

Bob blwyddyn cyhoeddir nifer o lyfrynau a chomics rhad, fel y gall eglwysi eu prynu a'u rhannu'n rhad ac am ddim mewn ysgolion ac yn y gymuned. Ar gyfer 2021 mae dewis o bum cyfrol, gyda chyflenwadau ar gael am brisiau rhesymol – o 30c i £1 y copi.



Yr Adnewid Amhosibl

Mae'r gyfrol fach hwylus hon yn ffrwyth cydweithio rhwng Cymdeithas y Beibl a Chyhoeddiadau'r Gair. Cymerwyd adran stori'r Nadolig o'r gyfrol *Stori'r Fwya'r Byd* gan Bob Hartman, gan ei darlunio mewn lliw a'i hanimeiddio ar gyfer creu llyfryn a ffilm *Yr Adnewid Amhosibl*. Adroddir hanes y Nadolig yn hwyliog ac mewn arddull sy'n llawn hiwmor, a braf oedd cael Casia William i fod yn lleisydd ar gyfer y ffilm Gymraeg. Er mai stori'r Nadolig yw'r brif stori, mae'r gyfrol hefyd yn mynd ymlaen i sôn am holl fywyd Iesu a'i bwrpas yn dod i'n byd.

Dyma dudalen olaf y llyfryn:

Ond dim ond dechrau'r hanes oedd ei eni. Mae'r Beibl yn mynd ymlaen i sôn amdano yn iacháu'r sâl, bwydo'r newynog a chroesawu'r rhai nad oedd eraill yn eu hoffi – a hynny er mwyn dangos sut beth oedd bywyd yn nheyrnas Dduw. Mae'n cysylltu ymlaen â'i farwolaeth, lle trechodd ei aberth bŵer drygioni trwy ddileu'r cywilydd a'r euogrydd a'r gosb am bob peth anghywir y byddai unrhyw un byth yn ei wneud. Mae'n sôn am ei atgyfodiad a sut y paratodd ar gyfer ein hatgyfodiad ni. Mae'n sôn am ei esgyniad, a sut mae'n teyrnasu wrth ochr Duw hyd heddiw. Ac mae'n sôn am ddyfodiad yr Ysbryd Glân – sy'n byw y tu mewn i bawb sy'n ei ddilyn ac yn ein helpu i fyw yn ôl ei esiampl ef. Ac yn olaf mae'n sôn am ba mor bwysig ydy Iesu i'w fywyd di, ac i fi, ac i bob un arall yn y byd heddiw, a hyd dragwyddoldeb, pan fydd Duw yn creu nefoedd newydd a daear newydd, lle y bydd yntau yn frenin am byth!

Mae'r gyfrol ar gael am £2, ond trwy brynu cyflenwad ohonynt i'w rhannu am ddim yn y gymuned mae modd archebu copïau am 50c yr un. Cysylltwch ag aled@ysgolsul.com am fwy o wybodaeth.



Cerdd y Nadolig

Pam mae plant yn gwisgo i fyny mewn dramâu'r geni ac yn casglu o amgylch doli babi mewn mymryn o wair? Pwy oedd y babi hwnnw? Beth wnaeth e? A beth oedd pwynt hyn i gyd? Mae'r atebion i'w cael yn y gyfrol *Cerdd y Nadolig* gan Gymdeithas y Beibl.

Yn y gyfrol ceir cerdd hyfryd gan Bob Hartman, sy'n ailadrodd y stori fwyaf a adroddwyd erioed mewn ffordd newydd a hudolus fydd yn swyno plant ifanc. Mae'n stori sy'n sôn am Dduw, amdanon ni ac am bopeth yn y byd. Addaswyd y gerdd i'r Gymraeg gan Bethan Jones, ac mae'r gyfrol yn cynnwys lluniau lliwgar gan Honor Ayers. Mae'n ddelfrydol i'w darllen i blant ifanc ac i deuluoedd. Mae modd gwyllo ffilm o'r stori hon hefyd ar wefan cymdeithasybeibl.cymru/cerddynadolig

Mae'r gyfrol ar gael am £2, ond trwy brynu cyflenwad ohonynt i'w rhannu am ddim yn y gymuned mae modd archebu copïau am 50c yr un. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag: aled@ysgolsul.com.

Un o rinweddau'r gerdd yw ei bod yn mynd y tu hwnt i stori'r Nadolig, gan roi'r hanes mewn cyd-destun ehangach. Sylwer ar y diweddglô:

Ond daeth Iesu yn ôl, yn ôl o'r bedd!
A dod at ei ffrindiau, a'u cyfarch mewn heddiw,
'Adroddwch fy stori wrth bawb yn y byd
Fy mod i am faddau eu drygioni i gyd
A'ch gosod yn rhydd i fyw fel gwnes i
I garu eich ffrindiau – a'ch gelynyddion chi.'
Dyna pam y daeth Dolig – croesawn y dydd

Y canu, y twrci, y ddrama a'r ffydd,
Wrth wisgo angyllion a chael ambell degan
Nid oherwydd y baban bach diddan
Ond y dyn a dyfodd a rhoi i ni'r ateb
Sy'n newid bywydau a lladd hen gasineb,
I fyw a charu – dyna gynllun Duw i ni
A throi'r hyn sy'n gas yn arwydd o ras
A throi'r hyn sy'n gas ... yn arwydd o ras!

Comics Beiblaidd


Mae dau gomic Beiblaidd ar gyfer y Nadolig hefyd ar gael i'w cyflwyno i blant. Maen nhw'n ddelfrydol ar gyfer plant oed cynradd, ac ar gael am y pris arbennig o 60c yr un mewn pecynnau o 10, neu 99c yr un. Gellir hefyd archebu pecynnau mawr o 50 am £25 neu 100 am £40.

Comic Beiblaidd Arwyr Ancora

Mae *Arwyr Ancora: Comic Beiblaidd y Nadolig* yn addas ar gyfer plant 7 i 11 oed. Mae'r comic hwn hefyd yn cyflwyno plant i ap Beiblaidd *Arwyr Ancora*, sydd ar gael yn Gymraeg.

Comic Beiblaidd Nadolig


Comic lliwgar, 16 tudalen, sy'n cynnwys stori'r Nadolig ar ffurf comic a thudalennau sy'n cynnwys cwis Nadolig, ffeithiau am y Nadolig ac amrywiol bosau.



Fy Llyfr Nadolig Cyntaf

Yn ogystal, ar gyfer y plant lleiaf mae llyfr lliwgar yn adrodd hanes stori'r Nadolig, sef *Fy Llyfr Nadolig Cyntaf*. Cyfrol yn cynnwys testun ar ffurf odl wedi ei greu'n arbennig gan Anni Llŷn, cyn Fardd Plant Cymru. Mae'n addas ar gyfer plant 3 i 7 oed, ac ar gael am £1.99 yr un. Gellir hefyd archebu pecynnau o 25 neu fwy am £1 yr un.

Mwy o wybodaeth ar www.ysgolsul.com neu drwy ebostio aled@ysgolsul.com



I weld y cyhoeddiad digidol Cenn@d yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaid Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

LLITHRO I'R NOS – NEU CEISIO EWYLLYS DUW? – (Parhad o'r dudalen flaen)

ugain mlynedd, mae aelodaeth eglwys i'r Annibynwyr Cymraeg wedi hanneri – o dros 30,000 ar ddechrau'r ganrif i 16,000 nawr. Ac o'r cyfanswm yna, faint sy'n ffyddlon i'r oedfa? Fel pregethwr cynorthwyol, gwn mai prin dros ben yw'r eglwys hynny lle mae hanner yr aelodau'n bresennol mewn cwrdd. Yn wir, byddwn yn amcangyfrif mai 15–20% ydyw ar gyfartaledd. Rwy'n derbyn bod nifer yn rhy hen a llesg i fynychu ac eraill yn byw ymhell, ond beth am weddill 'aelodau'r amlenni'? Ond nid yw hyn yn newyddion, wrth gwrs.

Marw gyda ffanffer fawr?

Mae Archesgob Caerefrog, Stephen Cottrell, yn cydnabod y gallai'r eglwys farw. 'Os felly, bydded i'n marwolaeth fod yn un operatig mawr,' meddai. 'Peidiwn a chropian i gornel.' Daw geiriau'r bardd Dylan Thomas am farwolaeth ei dad i'm cof:

Do not go gentle into that good night...
Rage, rage against the dying of the light.

Ond pa werth sydd i'r fath frafado?

Mae'r Archesgob hefyd yn cyfaddef mai meddiant fu'r strategaeth o blannu eglwys newydd. Os nad yw'r eglwys sydd gyda ni yn dal eu tir – heb sôn am dyfu – beth yw'r pwynt gwario arian ac

egni ar geisio agor rhai newydd? Heblaw, wrth gwrs, bod yr eglwys hynny'n ymgynull, yn bodoli ac yn gweithredu mewn ffyrdd hollol wahanol i'n syniad traddodiadol ni o beth yw eglwys; mewn ffyrdd sydd o bosib y tu hwnt i'n dychymig ni.

Deall ewyllys Duw

Y cwestiwn mawr i mi yw hyn: A ydym ni'n ceisio'n rhy galed i ddyfeisio a gweithredu ffyrdd yr ydym ni'n credu fydd yn fodd o adfer achos Iesu Grist, yn hytrach na gwneud mwy o ymdrech i geisio gwrandao a deall beth yw ewyllys Duw ar ein cyfer? Yn y sefyllfa bresennol, a ydyw Duw yn ein gyrru ni 'nôl at yr hyn ydoedd yr eglwys fore, yr hyn ydoedd Iesu Grist ei hun – sef grym cariadus sy'n estyn allan i leddfu poen pawb sydd mewn angen o bob math, tra'n cwrdd ag angen ysbrydol pobl? Yn hyn o beth, mae rhaglen Arloesi a Buddsoddi'r Undeb yn un amserol iawn i ysgogi a galluogi adfywiad trwy ffydd a gweithredoedd.

Arwyddion gobaith

I gymryd dwy esiampl sydd eisioes yn dwyn ffrwyth. Bu adroddiad am un yn *Y Tyst* wythnos ddiwethaf, a'r ail yn y rhifyn hwn.

Mae prosiect Tŷ Croeso gan

Bethlehem Newydd, Pwll-trap ger Sancelr wedi agor y capel fel cyrchfan

gymunedol, lle mae pobol yn dod â nwyddau ar gyfer elusennau lleol. Mae tosturi yn ganolog i'r ffydd Gristnogol, ac mae unrhyw weithgarwch sy'n gweithredu'r tosturi yna â siawns go dda o lwyddo. Mae Tŷ Croeso hefyd yn gyfle i gael sgwrs a phaned gyda'r rheini na fu tu mewn i'r capel erioed. Law yn llaw â hyn, mae adnoddau technolegol yn cael eu gosod at bwrpas addoliad cyfoes ac i ffyrddio oedfaon i gartrefi pobl. Yn ôl Annalyn Davies, y cydlynnydd cymunedol a benodwyd fel rhan o'r prosiect, mae'r fenter eisioes wedi creu cyffro yn y gymuned, a bywyd newydd yn y capel.

Fe wnaeth y pandemig orfodi eglwys i gynnal oedfaon rhithiol, ac fe aeth nifer o weinidogion ati i baratoi myfyrdodau, ac hyd yn oed oedfaon cyfan, i'w gosod ar y we. Fel rhan o'u rhaglen hwy, mae eglwys y Priorddy, Caerfyrddin wedi ymestyn y ddarpariaeth hynny, gan baratoi oedfaon wythnosol sy'n denu tua 500 o gynulleidfa yn reolaidd. Mewn ffordd ryfedd, onid yw'r cyfryngau rhithiol hyn yn nhraddodiad epistolau'r Testament Newydd – lle roedd Paul ac eraill yn anfon negeseuon o ysgogiad ac ysbrydoliaeth ar hyd ac ar led?

Alun Lenny



CHWILMENTAN


parhad o dudalen 2

Cyffro'r gynulleidfa

Cynhaliwyd yr oedfa yn Horeb, a dywed yr awdur bod yna gyffro yn ymylu ar dyndra i'w deimlo drwy'r gynulleidfa wrth ddisgwyl i'r oedfa ddechrau yn y capel oedd eisioes yn orlawn, gyda meinciau ychwanegol hyd bob ale. Naw wfft i reolau iechyd a diogelwch! Ar ben hynny ni allodd ymatal rhag nodi fel y bu rhaid i feirdd a gweinidogion godi oddi ar eu heistedd ar risiau'r pulpud i wneud lle i'r pregethwr esgyn! Ysgafnhawyd ryw faint ar yr awyrgylch wrth i'r llywydd, y Parchedig Brinley Pugh, gweinidog Horeb, egluro ei fod am lynu at yr hen arfer a gwahodd yr ifanc i bregethu gyntaf. Yr oedd Jacob eisioes yn 87 mlwydd oed!

Mentro croesi'r bont

Testun pregeth Jacob oedd loan, pennod



3, adnod 16. 'Canys felly y carodd Duw y byd fel y rhoddodd efe ei unig-anedig Fab, fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael ohono fywyd tragwyddol.' Gan ychwanegu pe digwyddai i'r Beibl oll gael ei ddileu o gof heb fod ond un adnod yn goroesi,

hon fyddai ei ddewis adnod ef. A dyma bregeth i ddangos mor effeithiol yw eglureb dda i gyflwyno'r Efengyl. Hanesyn ydyw am godi pont Telford ar draws Y Fenai, a chyfaddefodd y pregethwr nad oedd am warantu ei

parhad ar dudalen 7

Barn Annibynnol

Am amser

Peth rhyfedd yw amser, neu o leiaf ein canfyddiad ohono. Rwy'n cofio teimlo ar ryw adeg yn ystod y Clo Mawr fel petawn i wedi colli perspectif neu ymwybyddiaeth o amser. Roedd un dydd yn llifo i'r llall a gallai fod wedi bod yn chwe wythnos, deg wythnos, neu'n fisoedd ers iddo ddechrau. Ac eto erbyn heddiw, mae'r cyfnod hwnnw, fel bywyd ei hun, yn teimlo mor fyr wrth edrych yn ôl.



Bu fy Anti Neli, Chwillog, fyw nes ei bod yn gant oed. Ac rwy'n cofio fel ddod, fy nain yn dweud mai 'dim ond ugain Anti Neli sydd rhyngom ni ac amser Iesu.' A rhyfedd wedyn wrth feddwl gallai cymaint â hynny o bobl wasgu mewn ambell i lifft, cyn y Clo Mawr wrth gwrs.

Dychmygwch

Dychmygwch fod mewn ystafell gyda pherson o bob canrif dros gyfnod o ddwy fil o flynyddoedd. Dychmygwch y sgysiau, dychmygwch y gwahaniaethau, a dychmygwch wedyn y pethau fyddai'n gyffredin rhyngddyn nhw. Meddylwch wedyn, o gymharu, bod tua'r un ystod amser wedi'i gofnodi rhwng cloriau'r Beibl. Does dim dwywaith mai gallu'r gorffennol i dano'r dychymyg wnaeth i mi ymddiddori ynddo pan oeddwn yn ddisgybl ysgol, ei astudio yn y brifysgol, a'm harwain wedi hynny at yrfa yn y Llyfrgell Genedlaethol. Mae rhywbeth newydd i'w ddarganfod bob dydd wrth bori rhwng y cloriau ac ymhlith yr archifau.

Dysgais yn ddiweddar bod gwyddonwyr bellach yn medru dweud â sicrwydd bod y cof a'r dychymyg yn defnyddio yr un rhannau o'r ymennydd.

Mae'r cof yn ein galluogi i ddychmygu; nid yn unig dychmygu'r gorffennol, ond dychmygu ein dyfodol hefyd.

Hydwyth

Does dim rhaid dweud ein bod wedi gweld newid aruthrol mewn cyfnod byr, a phethau na fyddem wedi'u dychmygu ddegawd yn ôl. Mae rhai agweddau o wleidyddiaeth, economi a chymdeithas y byddem wedi'u hystyried yn sylfaenol a pharhaol bellach wedi'u hysgwyl. Eto i gyd, mae'r newid mawr wedi profi mor hydwyth allwn ni fod, a'n bod yn gallu addasu'n gyflym i amgylchiadau cwbl annisgwyl pan fo rhaid.

Mae yna adegau pan fyddaf yn hiraethu'n fawr am y cyfnod cyn Covid ac eraill pan rwy'n teimlo bod y Clo Mawr wedi ein rhyddhau o ryw fath o gaethiwed. A ninnau'n sôn nawr am adferiad, dyma adeg i ni gofio bod lesu gyda ni wastad a chanfod ein hymwybyddiaeth o amser, gan ystyried beth sydd i'w ddysgu o'n gorffennol a dychmygu o'r newydd y dyfodol rydyn ni'n ei geisio.

Dafydd Tudur

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

CHWILMENTAN

parhad o dudalen 6

dilysrwydd, eto i gyd yn un o'r straeon hynny sy'n haeddu bod yn wir. Mae'n debyg mai'r cyntaf i fentro dros y bont orffenedig oedd lleidr yn ffoi rhag yr heddlu ym Môn i ddiogelwch y tir ochr draw. Ac yna'r ergyd, 'Cofiw'n mai lleidr oedd y cyntaf i groesi'r bont hon hefyd, y lleidr ar y groes yn galw "Cofia fi pan ddelych i'th Deyrnas", a'r addewid, "Heddiw y byddi gyda mi ym mharadwys." Yn ddiogel.

Helpu Elfed i'r pulpud

Ac yntau'n llesg a 92 mlwydd oed, bu'n rhaid helpu Elfed i'r pulpud. Ond dywedir iddo draddodi megis dyn hanner ei oed, a chyda llais fel hynny nid rhyfedd mai ef oedd y pregethwr cyntaf wahoddwyd i ddarlledu ar y radio. Yn llyfr Sechareia cafodd ei destun, yn y cymal olaf o adnod 21 o'r wythfed bennod, '... minnau a af hefyd.' Dyna awgrymu ar unwaith mai pregeth genhadol ydoedd, gyda phwyslais ar y rhai aethant at eu pobl eu hunain yma yng Nghymru gan gofio am John Penn, ynghyd a'r rhai aeth dramor yn arbennig

felly genhadon Madagascar. Tueddwn i gofio Elfed fel bardd ac emynydd yn fwyaf arbennig, gan anghofio am ei waith mawr yn enw'r genhadaeth dramor. Gymaint yn wir fel y mae Emlyn Jenkins yn ei gofiant i Elfed yn neilltuo pennod gyfan i drafod yr agwedd hon ar ei weinidogaeth. Nid yw awdur yr erthygl yn dweud hynny, ond go brin y byddai Elfed wedi anghofio Griffith John, un o feibion yr ardal. Byddai hynny hyd yn oed yn fwy perthnasol heddiw o ystyried ei waith yn y dalaith lle tarddodd yr haint sydd heddiw'n cerdded trwy'r holl fyd. Y mae'r pwyslais ar y dystiolaeth adref a thramor yn frith yn ei emynau.

... yma yn ein gwlad ein hunain gwna ni'n llais dy gariad di, am achub myrdd myrddiynau glywir draw dros donnau'r lli.

A'r Saesneg,

The light of the morning is breaking,
the shadows are passing away,
The nations of earth are awaking,
new peoples are learning to pray.

Ac wrth gwrs, yr oedd testun o lyfr Sechareia yn gwbl addas gan mai dyma'r proffwyd oedd yn barod i wahodd y cenhedloedd, y bobl oddi allan, i rannu yn y gwaith o ail godi'r

Deml yn Jerusalem a gweld bod gan ddieithriaid, estroniaid, y potensial i ddod i weld y gwirionedd a'i gofleidio yn y man. Hynny yw, yr oedd Sechareia ei hunan yn genhadwr. Gyda llaw, rhaid peidio anghofio cyfraniad Jacob i'r gwaith cenhadol, ac ef yw awdur cofiant Hopkyn Rees, y cenhadwr a wynebodd gyfnod peryglus gwrthryfel y Bocsiaid yn China. Tua diwedd y llyfr ceir cerdd goffa hyfryd i'r cenhadwr sydd yn profi nad dieithr mo'r awen i Jacob ychwaith, a chofio hefyd mai ef piau'r emyn gweddigar, 'O na ddoi'r nefol wynt ...'

Meirion Evans
[i'w barhau]

Arloesi a Buddsoddi
Rhaglen Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Dyma gyfle i'r eglwysi gael nawdd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg i fuddsoddi yn eu dyfodol drwy fentro mewn ffyrdd newydd ac arloesol o hyrwyddo a chyhoeddi'r Efengyl, ac estyn allan i wasanaethu eu cymunedau a'u hardaloedd.

Cynigir symiau sylweddol iawn - hyd at £50,000 dros gyfnod o 5 mlynedd.

Cysylltwch â Ty John Penri
undeb@annibynwyr.cymru 01792 795888

Erthyglau, llythrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wneio Golygyddion Y Tyst ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

Diolch Cylch Carn Ingl

Buodd y Parchg Alwyn Daniels yn weinidog ar bump o eglwysi Cylch Carn Ingl, sef ardaloedd Trefdraeth, Dinas a Chwm Gwaun yng ngogledd Sir Benfro, am bron i 40 mlynedd. Mae pedair o eglwysi'r Bedyddwyr ac un Annibynol yn perthyn i'r ofalaeth.

Ac yntau bellach wedi ymddeol, fe gynhaliwyd oedfa arbennig yn Tabor, Dinas ar fore Sul, 24 Hydref i ddiolch am wasanaeth hir y Parchg Alwyn Daniels a Mrs Jean Daniels gyda chynrychiolaeth dda o'r pum eglwys wedi dod ynghyd. Wrth groesawu pawb fe esboniodd ysgrifennydd Tabor, Mr Morys Rhys, y dylai'r oedfa fod wedi cael ei chynnal flwyddyn ynghynt ar achlysur ymddeoliad Alwyn fel gweinidog Cylch Carn Ingl. Roedd cyfyngiadau Covid wedi rhwystro hynny, wrth gwrs, ac wedi golygu peth newid hefyd ym mhatrwm yr oedfa.

Neges rymus

Y pregethwr gwadd oedd y Parchg Judith Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru. Cafwyd ganddi neges gadarnhaol, rymus, yn ogystal â theyrnged loyw i waith a gwasanaeth Alwyn a Jean yn lleol ac yn genedlaethol. Cyhoeddwyd yr emynau gan Alwyn a Morys a'r organyddes oedd Mrs Margaret Rhys.

Wedi'r bregeth, daeth Mrs Aeres James, ysgrifennydd Bethlehem, ymlaen i ddiolch ar ran y cylch, i Alwyn am ddegawdau o weinidogaeth ymroddedig. Cyflwynodd dysteb o saith mil a hanner o bunnoedd iddo gyda diolchiadau'r ardal gyfan. Yna, diolchodd Mrs Marian Phillips, ysgrifennydd Jabes, i Jean am ei holl waith hithau, yn arbennig ei gwaith gyda'r Ysgol Sul, a chyflwynodd fasgedaid o flodau iddi.

Daeth Mrs Lilwen McAllister, warden Eglwys Sant Brynach Pontfaen, ymlaen gan ddiolch iddo am ei gefnogaeth a'i gydweithrediad ac i gyflwyno rhodd fach i'r ddau ar ran yr eglwys.

Gweinidog anrhydeddus

Newyddion oedd yn destun llawenydd i bawb oedd yn bresennol oedd fod Alwyn wedi derbyn y gwahoddiad i fod yn weinidog anrhydeddus i eglwysi Cylch Carn Ingl. Anrhydedd iddo ef, ond anrhydedd fwy i'r cylch.

Dymunwyd hoe a hamdden i Alwyn a Jean yn eu hymddeoliad, gan edrych ymlaen i gael eu cwmni yn y cylch am flynyddoedd lawer. Yn dilyn yr oedfa braf oedd cael cymdeithasu o gwmpas y byrddau ym maenordy Llwyngwair, lle cafwyd croeso a phryd blasus fel arfer.



DIOLCH O GALON I ALWYN AC I JEAN AM EU GWAITH A'U GOFAL.

Y rhai a gymerodd ran yn yr oedfa. O'r chwith i'r dde: Mr Morys Rhys, ysgrifennydd Tabor; Parchg Judith Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol UBC; Mrs Aeres James, ysgrifennydd Bethlehem; Mrs Jean Daniels a'r Parchg Alwyn Daniels; Mrs Marian Phillips, ysgrifennydd Jabes, Mrs Lilwen McAllister, warden eglwys Pontfaen. Hefyd yn rhan o'r trefnu oedd Mr Gwyndaf Rees a Mr Ben Davies, ysgrifenyddion Caersalem Dyfed ac Ebeneser Trefdraeth, ynghyd â Miss Gwenno Eynon, trysorydd y cylch.

Sarah Ceridwen Aubrey (Sally) 1919-2021

Hunodd ein chwaer annwyl mewn cartref gofal yng Nghastell-nedd lle y cafodd y gofal gorau am rai blynyddoedd. Daeth y teulu o Lanfair Clydogau ger Llambled i Gwm-nedd gan ymaelodi yn Soar ac wedyn Soar, Maesyrhaf. Bu'n athrawes ysgol Sul gan ofalu am oedfaon misol y plant, cynhyrchu'r ddrama Nadolig, ac actio mewn dramâu yn y capel. Sally oedd ysgrifennydd cymanfa'r Pasg am flynyddoedd lawer. Huliodd hi a Megan ei hefeilles y bwrdd Cymun a'r llyeiniau yn wyn fel y carlwm a'r llestri yn disgleirio. Cafodd ei hethol yn ddiagon ac ysgrifennydd y cyhoeddiadau.



Gweithiodd yn ddiwyd dros Gymorth Cristionogol, fel y dengys y llun ohoni yn cario'r blwch coch. Byddai yn casglu rhwng drws y farchnad a drws M&S - y man gorau yn y dre - gan gasglu miloedd o bunnau i'r elusen dros y blynyddoedd. Perthynai hefyd i bwyllgorau y Samariaid a Chymdeithas y Plant a gwirfoddoli yn siop Oxfam. Fe wnaeth Soar Maesyrhaf gyfrannu £250 tuag at y mudiad er cof amdani.

Ar lefel teulu gofalodd yn dyner am ei diweddar briod William a'i chwiorydd May a Megan a chafodd hithau ofal ffyddlon gan ei neiaint. Adeg ei phen-blwydd yn 100 oed cafwyd oedfa Gymun a the parti a hithau yn torri'r gacen. Byddai yn gwerthfawrogi ymweliadau y gweinidog, aelodau'r capel a ffrindiau, er mai dim ond galwadau ffôn oedd yn bosib yn ystod y pandemig. Cadwodd ei meddwl a'i hiwmor iach tan y diwedd.

Yn fy nheyrnged i Sally ddydd ei hangladd yn amlogfa Margam cyfeiriais at y naratif yn yr Efengylau Cyfolwg am Mair yn chwalu'r blwch ennaint ac eneinio Iesu gan ddweud dau beth am ei gweithred. 'Gweithred brydferth a wnaeth hon i mi.' Roedd Sally yn berson hardd o ran pryd a gwedd a phersonoliaeth ond hefyd yn ei ffydd a'i hymarweddiad. Meddai Iesu hefyd, 'Yr hyn a allodd hon hi a'i gwnaeth.'

Ymgysgrod ei chwaer i waith yr eglwys a'r gymuned. Meddai Llyfr y Diarhebion, 'Llawer merch a weithiodd yn rymus and ti a ragoraist arnynt oll.' Er cof am Sally. Er cysur i'r teulu ac er gogoniant i Ddau.

Gareth Morgan Jones